

**ARCHWILIAD CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD MÔN**

Hoffwn ddiolch yn gyntaf am y cyfle o allu crynhoi y materion a anfonwyd i mewn ynglŷn â'r Safleoedd Amgen eisioes.

Heb **ail-adrodd** dyma dynnu'r cyfan at ei gilydd a nodi pwysigrwydd pam y gallai tir Gwernhefin fod yn bwysig yn y cynllun uchod i'r dyfodol.

- Mae terfyn y tir yn eistedd yn daclus ynghanol y cylchdro presennol sy'n troi am y Stâd Ddiwydiannol – cylchdro A5114. Sydd yn y dyfodol agos yn mynd i gael ei adnewyddu ar gyfer y ffordd newydd sydd ar y gweill – a'r sefyllfa draffig yn mynd i elwa o hyn i bob cyfeiriad.

Mae sôn wedi bod am greu man croesi ar dir Gwernhefin fel rhan o'r llwybr beicio i groesi i'r Stâd Ddiwydiannol.



Mae'r llinell goch yn dangos y tir yn cyd-fynd ac yn amgylchynnu yr holl newidiadau sydd ar y gweill. Oni fuasai symud y ffin i ben yma o'r cae yn gwneud llawer mwy o synnwyr?

- Mae'r safle yn diwallu'r mwyafrif o'r trothwyon ar gyfer pellter i ddulliau trafniadaeth – safleoedd bws, llwybrau cerdded a beicio a'i bellter i'r prif ganolfannau megis gwasanaeth ac ardaloedd cyflogaeth y Cyngor Sir gerllaw.

Tair ysgol a mae cryn nifer o blant sy'n byw ar Lon Glanhwfa yn eu mynychu sef Y Graig, Com Hir a'r Ysgol Uwchradd. **Cerdded** i'r ysgol mae'r teuluoedd yma hefo'r plant.

Pum munud a gymerir i gerdded i'r stryd.

Mae hyn i gyd yn dangos hwylustod y safle.

- Mae datblygiadau yn digwydd o hyd a chan fod y Stâd Ddiwydiannol dros y ffordd fe welir llawer mwy i'r dyfodol. Mae safle gwaith ar draws y ffordd i'r cae yn ehangu eu maes parcio yn barod, mater o amser a chredaf y byddent yn ymestyn y ffordd arall tuag at y cylchdro!

Credaf y gellir defnyddio tir Gwernhefin (sydd hefo'r holl wasanaethau angenrheidiol megis dŵr, carthffosaeth) i greu stâd boed fechan megis hanner y cae neu i niferoedd mwy fydd yn cael ei gyflwyno mewn ffordd briodol a sensitif. Fel bod cymeriad y tirlun yn cael ei warchod a'i gyfoethogi. Gellir cael stad o dai fydd yn cynnwys gwaith dylunio arloesol a chreadigol a fydd yn bleser i'r llygaid. Nid rhywbeth fydd yn amharu ar unrhyw un fydd yn mynychu'r dref.

Gyda'r pwyntiau hyn a gofynion y **MATRICES** yn dangos bod y materion a godir o'r cwestiynau yn gwbl bositif am y safle. Gobeithio y gwnewch roi ystyriaeth i'r cais fel un hir dymor.

Llawer o ddiolch am eich hamser.



Rhian Williams